

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Gwersi Beiblaidd o Actau'r Apostolion

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



#### DARLLENWCH

Actau 1: 7-9

Actau 2: 1-13




#### ADNODAU ALLWEDDOL

Ioan 14: 16 ac 17

## Gwers 1 Gweision yr Arglwydd – Parod i sôn am Iesu

Pan oedd yr Eglwys Gristnogol yn ifanc, roedd Duw yn defnyddio nifer o ddynion i ddweud wrth bobl mewn gwahanol wledydd am Iesu. Roedd Duw yn defnyddio'r Ysbryd Glân i arwain y bobl hyn ac roedden nhw'n ufudd iddo. Roedden nhw'n pregethu wrth lawer o bobl ac roedd nifer fawr o'r rhain yn derbyn Iesu'n Waredwr iddynt.

**C** Nodwch enwau'r ardaloedd lle'r oedd Iesu wedi dweud wrth ei ddisgyblion am sôn amdano.



4

Ar ôl i Iesu fynd i fyny i'r Nefoedd, roedd y disgyblion yn cael eu galw'n 'APOSTOLION' (hynny yw, rhai oedd wedi'u hanfon ganddo) ac yn "WEISION" (hynny yw, rhai oedd yn gweithio drosto). Fydden nhw ddim yn gallu gwneud y gwaith mawr hwn yn eu nerth eu hunain.

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld pwy fyddai'n eu helpu gyda'u gwaith.

ry SYRDYB NÂLG \_\_\_\_\_

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn am ddyfodiad yr Ysbryd Glân yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.



Daeth yr Ysbryd Glân ar ddiwrnod y Pentecost. ....

Yn sydyn, roedd y tŷ yn llawn sŵn canu. ....

Daeth rhywbeth tebyg i dân i orffwys ar bawb ohonynt. ....

Dim ond rhai o'r disgyblion gafodd eu llenwi â'r Ysbryd Glân. ....

1

4

Ar ôl i'r apostolion dderbyn yr Ysbryd Glân y cychwynnodd yr Eglwys. Daeth tyrfa fawr i'r tu allan i'r tŷ lle'r oedd yr apostolion.


**C Rhowch gylch o gwmpas y geiriau i ddangos pwy oedd yn y dyrfa.**

Iddewon o bob cenedl. Nifer o bobl o Galilea. Y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion.

**C Pam roedd y dyrfa wedi drysu'n lân? (Darllenwch Actau 2: 6-8)**

Roedd gweision Duw yn gallu gwneud hyn oherwydd bod yr Ysbryd Glân wedi rhoi nerth iddynt. Dyma'r cyntaf o nifer fawr o 'ACTAU' rhyfeddol y byddent eu gwneud trwy nerth yr Ysbryd Glân.

**C Gwnewch 'BOSYR ACTAU' trwy nodi pump o'r llefydd yr oedd yr Iddewon wedi dod ohonynt:-**



Roedd Iesu wedi addo'r digwyddiad hanesyddol hwn cyn iddo farw.

**C Darllenwch yr Adnodau Allweddol ac ateb y cwestiynau isod:-**

Dywedodd Iesu y byddai'n gofyn i rywun anfon "Eiriolwr" i helpu'r disgyblion.

I bwy oedd Iesu am ofyn hyn?

("Eiriolwr" yw rhywun sy'n siarad dros rhywun arall i'w helpu. Mae'r gair hwn yn cael ei gyfieithu fel "Cyfnerthwr" (rhywun sy'n rhoi nerth) neu "Diddanydd" (rhywun sy'n cysuro) hefyd.)

Hyd pryd y dywedodd Iesu y byddai'r Eiriolwr yn aros gyda'r disgyblion?

Beth oedd enw Iesu ar yr Eiriolwr hwn?

 y   
  

**C Pam na all y byd ei dderbyn? (Darllenwch yr Adnodau Allweddol)**

Roedd Iesu ar fin marw pan ddywedodd y geiriau hyn. Ar ôl iddo atgyfodi, byddai'n mynd yn ôl i'r Nef ond, cyn gadael y disgyblion, gwnaeth yr addewid hon. Ni fyddai'n gadael y disgyblion ar eu pen eu hunain. Byddai'r Eiriolwr, neu'r Cyfnerthwr, neu'r Diddanydd gyda nhw.

Nid fel dyn y byddai'r Eiriolwr yn dod. Byddai Duw, yr Ysbryd Glân, yn dod ac yn byw ym mhob un o'i ddisgyblion. Byddai'n eu paratoi ac yn eu gwarchod fel y gallent wneud y dasg yr oedd Iesu wedi'i rhoi iddynt.

Bydd yr Ysbryd Glân yn dod ac yn byw yn och chi os credwch yn Iesu fel eich Gwarddwr. Yna, bydd ei bresenoldeb a'i nerth yn eich helpu, ddydd ar ôl dydd, i fyw'ch bywyd newydd fel Cristion er ei fwyn ef.



DARLLENWCH  
Actau 6: 1-5 ac 8-15  
Actau 7: 54-60



ADNOD ALLWEDDOL  
Mathew 5: 44

## Gwers 2 Gweision yr Arglwydd – Parod i Farw!

Wrth i'r Newyddion Da, neu'r Efyngyl, gael ei bregethu yn Jerwsalem, daeth mwy a mwy o bobl i gredu. Roedd y disgyblion mor brysur yn helpu pobl dlawd a phobl oedd eisiau bwyd, yn enwedig gweddwon, fel bod ganddyn nhw lai o amser i weddio a phregethu. Felly, fe ddewisodd nhw saith o ddynion i helpu i ofalu am y gweddwon.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r lluniau i weld beth oedd enw un ohonynt nhw.



1

**C** Pa ddau beth oedd yn arbennig am Steffan? Tynnwch linell o dan yr atebion cywir.

Llawn llawenydd / Llawn o ffydd / Llawn o'r Ysbryd Glân /  
Llawn syniadau da / Llawn hunanhyder

2

Yn ogystal â gofalu am bobl dlawd, fe wnaeth Steffan nifer o wyrthiau mawr. Rhoddodd yr Ysbryd Glân nerth iddo i wneud y pethau hyn fel y byddai'r bobl yn credu ei neges am yr Arglwydd Iesu ac yn ymddiried ynddo fel eu Gwarddwr.

**C** Pwy oedd yn gwrthwynebu Steffan ac yn dadlau ag ef?  
(Darllenwch Actau 6:9)

2

Fe wnaethon nhw berswadio pobl i ddweud celwydd am Steffan ac fe wnaethon nhw lwyddo i droi'r bobl gyffredin a'r arweinwyr crefyddol yn ei erbyn.  
Fe wnaethon nhw ei gipio a dod ag ef o flaen y Cyngor. Yma, eto, cafodd Steffan help yr Ysbryd Glân i siarad dros Iesu.

**C** Disgrifiwch yr olwg ar ei wyneb.

1

Gallwch ddarllen yn Actau 7: 2-53 beth ddywedodd Steffan. Fe ddywedodd bod yr Iddewon wedi bod yn anufudd i Dduw erioed ac nad oedden nhw'n gwrando ar y rhai oedd yn pregethu Gair Duw. Aeth ymlaen i ddangos eu bod nhw'n dal i wrthod derbyn y neges bod Iesu Grist yn fyw.

**Ydyn ni'n gwrthod gwrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthym trwy'r Beibl ambell waith?**

**Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl,  
Actau 7: 54-60 i ateb cliwiau'r  
CROESAIR.**

**Ysgrifennwch yn y blychau lliw hefyd.**

**Cliwiau i lawr**

1. Roedd Steffan yn \_\_\_\_\_ o'r Ysbryd Glân.
4. Un o deitlau Iesu (Adnodau 59 a 60)
5. Gofynnodd Steffan i Dduw beidio â dal \_\_\_\_\_ y bobl yn eu herbyn.
6. Gwelodd Steffan \_\_\_\_\_ Duw.



**Cliwiau ar draws**

2. Dywedodd Steffan ei fod yn gweld \_\_\_\_\_ ar ochr dde Duw (3 gair).
3. Cafodd Steffan ei fwrw allan o'r \_\_\_\_\_.
7. Roedd y bobl yn ysgyrnygu eu \_\_\_\_\_ ar Steffan.
8. Pwy oedd yn dal dillad y bobl?

**C**

**Rhowch y llythrennau yn y blychau lliw yn y croesair yn y drefn gywir i wneud y gair sy'n dweud beth wnaeth y bobl i Steffan.**


\_\_\_\_\_

**C** Darllenwch yr Adnod Allweddol a'i hysgrifennu yma:-


**C** Nawr, darllenwch Luc 23: 34 a'i chymharu ag Actau 7: 60. Beth wnaeth Steffan sy'n ein hatgoffa o'r hyn a wnaeth ei Feistr a'i Waredwr, Iesu Grist, pan fu ef farw?


Roedd Steffan yn barod i farw fel Cristion, yn hytrach na chadw'n dawel am y Newyddion Da fod yr Arglwydd wedi Atgyfodi. Heddiw, mewn rhai gwledydd mae pobl yn gas i Gristnogion oherwydd eu ffydd. Mae rhai Cristnogion yn barod i farw yn hytrach na bradychu yr Iesu y maen nhw'n ei garu!

**Faint ydych chi'n caru Iesu?**



9

1

2

2



**DARLLENWCH**  
Actau 8: 5 a 26-40



**ADNOD ALLWEDDOL**  
Actau 16: 31


### Gwers 3 Gweision yr Arglwydd - Parod i Wrando!

Sawl gwaith mae Mam neu Dad neu athro yn yr ysgol wedi dweud wrthy'ch chi, "Gwna fel dw i'n dweud!" Sawl gwaith ydych chi wedi clywed y dywediad "I mewn trwy un glust ac allan trwy'r llall"? Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwranddo'n ofalus pan fydd rhywun yn esbonio rhywbeth wrthon ni, er enghraifft sut i ddod o hyd i rywle dieithr neu sut i wneud arbrawf yn yr ysgol. Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dangos sut y cafodd rhywun help i ddod yn Gristion trwy wrando'n ofalus ar beth roedd Duw'n ei ddweud a gweithredu ar hynny.

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod pwy oedd yn pregethu am Iesu Grist.


LIPHPI \_\_\_\_\_

**C** Ysgrifennwch ar yr arwydd enw'r ddinas lle'r aeth i bregethu.



**C** Rhowch linell trwy'r atebion **ANGHYWIR** i weld pa neges a gafodd gan angel yr Arglwydd:-

"Cod a dos tua'r gorllewin / de / dwyrain ar hyd y  
llwybr / gamlas / ffordd sy'n mynd o Jaffa / Jerwsalem  
/ Jericho i Gasa / Gadara / Galilea.



Sylwch beth wnaeth Philip. (Adnod 27) Wnaeth e ddim gofyn cwestiynau. Dim ond gadael dinas lle'r oedd llawer o bobl wedi dod i gredu yn yr Arglwydd Iesu a mynd i'r anialwch. Doedd e ddim yn gwybod pa mor bell y byddai'n rhaid iddo fynd, pwy y byddai'n cwrdd â nhw na pham yr oedd yn mynd! Ond fe wnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi dweud wrtho. Doedd e ddim yn gwybod ond roedd Duw'n gwybod bod rhywun arall yn teithio'r ffordd honno hefyd!

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.


- Roedd y teithiwr yn dod o Nigeria. ....
- Roedd yn gofalu am holl drysor y frenhines. ....
- Roedd wedi bod yn Jerwsalem i addoli Duw. ....
- Roedd yn cysgu yn ei gerbyd. ....



**C** Beth ddywedodd yr Ysbryd Glân wrth Philip? (Adnod 29)

Unwaith eto, fe wnaeth Philip ufuddhau.

**C** Ysgrifennwch ar y sgrôl enw'r proffwyd yr oedd y teithiwr yn darllen ei waith.



**C** Ysgrifennwch yn eich **GEIRIAU EICH HUNAN** pam y gofynnodd y dyn i Philip eistedd gydag ef yn ei gerbyd. (Adnodau 30 a 31).

**C** Edrychwch ar adnod 34, ac ysgrifennwch y cwestiwn a ofynnodd y dyn am y darn yr oedd yn ei ddarllen.

Nawr, tro'r dyn o Ethiopia i wrando a dysgu oedd hi!

**C** Am bwy wnaeth Philip bregethu?

Defnyddiodd Philip y darn hwn o lyfr Eseaia yn yr Hen Destament i ddweud wrth y dyn sut yr oedd Duw wedi rhoi cyfle i bobl gael eu hachub trwy farwolaeth ei Fab. Roedd Iesu wedi marw ar groes i'w achub ef fel y gallai Duw faddau pechodau'r dyn a rhoi bywyd tragwyddol iddo yn y nefoedd. Wrth i'r dyn o Ethiopia wrando, fe sylweddolodd ei fod yn bechadur ac roedd ef eisieu derbyn Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr. Pan ddaethant at ryw ddŵr ar y ffordd, gwerddon yn yr aialwch efallai, gofynnodd y dyn am gael ei fedyddio.

**Er mwyn dangos i bobl eraill eu bod nhw'n dilyn Iesu Grist, roedd yr holl Gristnogion yn amser y Testament Newydd yn cael eu bedyddio trwy gael eu trochi mewn dŵr.**

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

Roedd yn bleser gan Philip gael bedyddio'r dyn o Ethiopia pan ddywedodd ei fod yn credu bod Iesu Grist yn Fab Duw.

**C** Ysgrifennwch beth a ddigwyddodd i Philip pan ddaeth y ddau allan o'r dŵr.

**C** Rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n disgrifio sut yr aeth y dyn o Ethiopia ar ei ffordd.

yn llefain/crïo    yn llawen    yn gweiddi

Gallwch chithau fod yn llawen fel hyn hefyd os ydych chi'n barod i wrando a chredu'r neges ardderchog bod Iesu wedi marw i fod yn Waredwr i chi.



DARLLENWCH  
Actau 10: 1-20 a  
24-29 a 33-43



ADNOD ALLWEDDOL  
Actau 10: 43

## Gwers 4 Gweision yr Arglwydd – Parod i Fynd!

Doedd Ben a Beca ddim yn hapus iawn. Roedd Mam a Dad wedi dweud eu bod yn gorfod mynd i weld eu hewythr oedd yn sâl yn yr ysbyty. Doedden nhw ddim yn hoffi ysbytai. Ond, ar y ffordd adref, roedd y ddau'n dweud eu bod yn falch eu bod nhw wedi mynd. Roedd Yncl Bil mor falch o'u gweld ac roedd wedi codi'i galon yn fawr am eu bod nhw wedi mynd yno. Ydych chi wedi teimlo fel Ben a Beca erioed? Efallai nad oeddech chi eisiau mynd i rywle neu i weld rhywun. Roedd rhaid i Dduw baratoi un arall o'i weision, Pedr, i'w wneud yn fodlon mynd i rywle na fyddai'n arfer mynd iddo, i ddweud wrth y bobl am Iesu.

**C** I gael gwybod pwy oedd yn byw yng Nghesarea a beth oedd ei waith, ceisiwch ddatrys y cod isod (a = 1, b = 2, c = 3, ch = 4, y = 28 ac ati)

3 18 21 17 7 14 13 26 23                      3 1 17 27 21 13 1 5

-----

  
2

**C** Roedd y dyn hwn yn ofni Duw. Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN ddau beth arall yr oedd yn eu gwneud yn rheolaidd.

1	<input type="text"/>
2	<input type="text"/>

  
2

**C** Pwy oedd wedi sylwi ar y pethau da yr oedd yn eu dweud a'u gwneud?

  
1

Felly, cafodd neges bwysig mewn gweledigaeth, neu freuddwyd.

**C** Llanwch y bylchau i gael gwybod beth oedd y neges:-

SIMON JOPA PEDR MÔR

"Anfon ddynion i \_\_\_\_\_ i nôl dyn o'r enw \_\_\_\_\_ sy'n aros gyda barcer (dyn trin lledr)

o'r enw \_\_\_\_\_ mewn tŷ ar lan y \_\_\_\_\_.

  
4

**C** Tynnwch lun faint o weision a faint o filwyr a anfonodd.

(Defnyddiwch 'ddynion pin')



  
2

**C** Wrth iddyn nhw gyrraedd y ddinas, aeth Pedr i ben to'r tŷ. Beth oedd e'n mynd i'w wneud?

  
1

Roedd eisiau bwyd ar Pedr ac, wrth ddisgwyl am y pryd, fe gafodd brofiad rhyfeddol.

**C** Ysgrifennwch ar y llinell ar yr peth tebyg i hwyl fawr beth welodd Pedr. (Actau 10: 11-13). Yn y swigen siarad, ysgrifennwch y neges a gafodd ei haildrodd wrth Pedr dair gwaith.



2

Roedd Duw yn dysgu Pedr, trwy'r weledigaeth, ei fod i rannu'r Newyddion Da am Iesu Grist â phobl nad oedden nhw'n Iddewon (y Cenhedloedd oedden nhw'n cael eu galw). Cyn hyn, roedd Pedr yn meddwl na ddylai hyd yn oed fynd i mewn i gartref rhywun nad oedd yn Iddew. Dangosodd Duw iddo, trwy'r weledigaeth, bod POB CENEDL i fod i glywed yr Efengyl ac felly roedd e'n barod i fynd i gartref Cornelius.

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.

Roedd Cornelius ar ei ben ei hunan yn y tŷ pan ddaeth Pedr i mewn. ....  
Arhosodd Pedr wythnos cyn mynd. ....  
Syrthiodd Cornelius wrth draed Pedr i'w addoli. ....  
Roedd Pedr yn falch bod Cornelius wedi'i addoli. ....  
Dywedodd Cornelius eu bod nhw'n barod i glywed beth oedd gan Dduw i'w ddweud. ....

5

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrth Cornelius, ac wrthon ni, beth y mae'n rhaid i ni ei wneud i gael ein hachub.


1

Y diwrnod hwnnw, credodd Cornelius a phawb oedd yn ei dŷ yn yr Arglwydd Iesu ac felly fe ddaethon nhw'n Gristnogion. Roedd y rhain ymhlith y bobl gyntaf o'r Cenhedloedd i ddod i gredu yn yr Arglwydd Iesu.

Athro Iddewig – Trysorydd o Ethiopia – Canwriad Rhufeinig – roedd Duw'n fodlon achub pob un ohonyn nhw am eu bod nhw'n credu. Mae'r gwersi hyn yn un ffordd y mae Duw'n ei defnyddio i roi'r neges ardderchog hon i ni. Ydych chi'n credu'r neges? Does dim ots beth yw ein lliw na'n hil na'n crefydd. Mae Duw yn gallu ac yn barod i achub pawb sy'n ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

cyfanswm

Marciau  
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm  
Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120